**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

7fed Tachwedd, 2024

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen) Jess Williams, Gwenno Emlyn Hughes, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

Glanhau Llochesi Bws

Derbyniwyd pris o £280.00 gan gwmni Waterworks i lanhau'r safleoedd bysus canlynol:
1 x Bryncir
1 x Golan
2 x Garndolbenmaen
3 x Pentrefelin
1 x Penmorfa
Derbyniwyd y pris. MLW yn cynnig a JJ yn eilio.

Ethol aelod i eistedd ar gorff llywodraethu Ysgol Garndolbenmaen

RP yn cynnig Enid Egginton a CW yn eilio.

Ymgynghoriad dosbarthiadau a mannau pleidleisio

Ymatebwyd i'r ymgynghoriad gyda'r canlynol:

1)Mae'r orsaf bleidleisio yn un o'r ychydig adnoddau mae'r Cyngor yn ei gyflenwi yn ardal Prenteg felly ac mae'r Cyngor Cymuned yn gadarn wrth ddweud y dylid ei gadw.

2)Yn ail mae Tremadog tu allan i ardal Dolbenmaen ac felly os bydd is etholiad yn ward Prenteg bydd raid i bawb fynd i Dremadog er bod yna neb o Dremadog yn pleidleisio ar y diwrnod hwnnw.

3)Yn drydydd os byddai bwriad i'w symud i Benmorfa, mae'r amserlen bws yn ei gwneud hi'n amhosib pleidleisio a dychwelyd mewn amser rhesymol.

4)Yn bedwerydd ydi hyn yr ail gam i ddileu Cyngor Cymuned Dolbenmaen? Oherwydd rhesymau daearol mae ward Prenteg yn rhan o etholaeth Glaslyn ddim Dolbenmaen. Os fydd hyn yn cael ei dderbyn yna a fydd ward Prenteg yn symud o Ddolbenmaen i Borthmadog. Cyngor trefol yn hytrach na chefn gwlad. Mae hyn wedyn yn agor y drws i symud Golan a Penmorfa i Borthmadog, Garn a Bryncir i Glynnog a Pentrefelin i Gricieth.
Mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'n gryf a chadarn yn erbyn y newidiadau arfaethedig yma.

Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg

MLW yn cynnig a RP yn eilio bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r adroddiad. Arwyddodd RW y Cadeirydd i gadarnhau ein cefnogaeth. Clerc i gysylltu gyda